# Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

**2008 mccc 2**

*Prif dermau*

## 1 Y prif dermau a ddefnyddir yn y Mesur hwn

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Mesur hwn.

(2) Trefniadau teithio, ni waeth beth fo'r disgrifiad ohonynt, yw "trefniadau teithio" ac maent yn cynnwys—

(a) darparu cludiant;

(b) darparu un person neu fwy i hebrwng plentyn pan fydd yn teithio;

(c) talu'r cyfan neu unrhyw ran o dreuliau teithio rhesymol person;

(d) talu lwfansau mewn cysylltiad â defnyddio dulliau teithio penodol.

(3) Ystyr "dysgwyr" yw personau sy'n cael addysg neu hyfforddiant.

(4) Mae "mannau perthnasol" fel a ganlyn—

(a) ysgolion a gynhelir;

(b) sefydliadau yn y sector addysg bellach;

(c) ysgolion annibynnol a enwir mewn **[**[F1]datganiadau a gedwir o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56)**][**[F1]cynlluniau datblygu unigol a gynhelir o dan adran 14 neu 19 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** ;

(d) ysgolion arbennig nas cynhelir;

(e) unedau cyfeirio disgyblion;

(f) mannau ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion lle y trefnir addysg o dan adran **[**[F2]19(1)**][**[F2]19A(1)**]** o Ddeddf Addysg 1996;

(g) mannau lle y darperir addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan Weinidogion Cymru o dan adran 34(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21);

(h) **[**[F3]sefydliadau lle y sicrhawyd addysg a hyfforddiant a llety byrddio gan Weinidogion Cymru o dan adran 41 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;**]**

**[**[F3]sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o fewn yr ystyr a roddir gan adran 56 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a enwir mewn cynlluniau datblygu unigol a gynhelir o dan adran 14 neu 19 o'r Ddeddf honno;**]**

(i) mannau lle y darperir addysg feithrin—

(i) gan awdurdod lleol, neu

(ii) gan unrhyw berson arall sy'n cael cymorth ariannol a roddir gan awdurdod lleol o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol yn unol â'r ddyletswydd a osodir gan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31);

(j) mannau lle yr ymgymerir â phrofiad gwaith.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 1(4)(c) wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(2)(a)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2)

**F2** Gair yn a. 1(4)(f) wedi ei amnewid (1.9.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2023 at ddibenion penodedig) gan Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022 (O.S. 2022/744), rhl. 1(3), **Atod. 2 para. 10**

**F3** A. 1(4)(h) wedi ei amnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(2)(b)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 1(1)-(3)(4)(a)-(i) mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

**I3** A. 1(4)(j) mewn grym ar 30.10.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(1)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, Adran 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 1(4)(g) words substituted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 23(2)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):
– s. 7(3)(a)(ai) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 23(3)(b)